

# **Cyngor Sir Ynys Môn**

## **Polisi Gweithio ar Uchder**

### **Fersiwn 1.0 Chwefror 2016**

#### **Am y polisi hwn**

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar bob cyflogwr o dan adrannau 2 (1) & 3 'Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974' sicrhau, 'i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol', iechyd, diogelwch a lles eu gweithwyr yn y gwaith ac eraill all gael eu heffeithio wrth iddynt wneud y gwaith hwnnw.

At hyn, mae yna ddyletswydd glir ar gyflogwyr o dan y 'Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith fel y'u Diwygiwyd' i asesu'r risg sy'n gysylltiedig â holl weithgaredd y gwaith.

Daeth y Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005 i rym i bob sector o'r diwydiant ym Mhrydain yn 2005.

Nod y Rheoliadau Gweithio ar Uchder yw sicrhau bod gweithwyr yn cael eu diogelu rhag niweidiau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithio ar uchder.

Cefnogir y Polisi gydag adnoddau ar wefan y Cyngor.

## Hanes Adolygu

| Fersiwn | Dyddiad       | Crynodeb o'r newidiadau |
|---------|---------------|-------------------------|
| 2.0     | Chwefror 2015 | Diweddariad Templed     |
| 2.0     | Mai 2017      | Dim newidiadau          |
| 2.0     | Ebrill 2018   | Dim newidiadau          |
| 2.0     | Ebrill 2019   | Dim newidiadau          |
| 2.0     | Ionawr 2021   | Dim newidiadau          |

| Dyddiad yr adolygiad nesaf |                                      |
|----------------------------|--------------------------------------|
| Adolygir y polisi ar :     | Ebrill 2021                          |
| Cynhelir yr adolygiad gan: | Tim Iechyd a Diogelwch Corfforaethol |

### Manylion cyswllt:

Tim Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ([lechydADiogelwch@ynysmon.gov.uk](mailto:lechydADiogelwch@ynysmon.gov.uk))

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

# Cynnwys

## Cyflwyniad

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar bob cyflogwr o dan adrannau 2 (1) & 3 'Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974' sicrhau, 'i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol', iechyd, diogelwch a lles eu gweithwyr yn y gwaith ac eraill all gael eu heffeithio wrth iddynt wneud y gwaith hwnnw.

At hyn, mae yna ddyletswydd glir ar gyflogwyr o dan y 'Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith fel y'u Diwygiwyd' i asesu'r risg sy'n gysylltiedig â holl weithgaredd y gwaith.

Daeth y Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005 i rym i bob sector o'r diwydiant ym Mhrydain yn 2005.

Nod y Rheoliadau Gweithio ar Uchder yw sicrhau bod gweithwyr yn cael eu diogelu rhag niweidiau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithio ar uchder.

O dan y rheoliadau hyn mae yna ddyletswydd ar bob cyflogwr i sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ac yn ymarferol, bod yna;

**'Osgoi risgiau sy'n codi o weithio ar uchder'**. [Rheoliad 6, (2)] Rhaid i bob cyflogwr sicrhau na wneir gwaith ar uchder lle mae'n rhesymol ymarferol i allu gwneud y gwaith yn ddiogel heb orfod gweithio ar uchder.

Bydd y cyngor yn gwneud pob ymdrech i:

- Osgoi gweithio ar uchder lle bo hynny'n bosibl
- Defnyddio offer gwaith neu fesurau eraill i rwystro pobl rhag cwmpo - lle na ellir osgoi gweithio ar uchder
- Lle na all y cyngor ddileu'r risg i rywun gwmpo, bydd yn defnyddio offer gwaith neu fesurau eraill i leihau pellter a chanlyniadau unrhyw gwmp pe bai hynny'n digwydd

## Datganiad Polisi

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, ei fod yn diogelu ei weithwyr rhag risgiau y gellir eu rhagweld sy'n gysylltiedig gyda gweithio ar uchder tra'n ymgymryd â thasgau ar ran yr Awdurdod. Bydd y Cyngor hefyd yn ceisio lleihau'r angen i weithio ar uchder lle bo hynny'n 'rhesymol ymarferol'.

Bydd y mesurau hyn yn cynnwys darparu a chynnal asesiadau risg gan bobl gymwys ac addas er mwyn canfod:

- Maint a natur y risg

- Unrhyw risg bosibl i ddiogelwch pob person, gweithiwr, contractwr ac aelodau o'r cyhoedd, o fewn neu o amgylch ardal y gwaith.
- Y ffactorau sy'n cyfrannu tuag at y risg.
- Y newidiadau sydd angen eu gwneud i ddileu neu reoli'r risg.

Fe all y ffactorau sydd i'w hystyried gynnwys:

- Y gwaith a wneir.
- Strwythur / lleoliad y gwaith.
- Cyflwr, oed a'r math o offer a ddefnyddir.
- Cyflwr ac oed y strwythur / lleoliad.
- Y dull o fynd i mewn ac allan o ardal y gwaith.
- Y math o offer mynd i mewn / allan a ddefnyddir.
- Addasrwydd yr offer a ddefnyddir.
- Ffitrwydd a hanes meddygol yr unigolyn sydd mewn perygl.
- Canlyniadau unrhyw ddamwain.
- Y mesurau sydd eu hangen i allu achub unrhyw un.

Nid yw'r rhestr uchod o ystyriaethau yn rhestr lawn ac efallai y bydd angen ystyried materion eraill fel bydd yn briodol i'r sefyllfa.

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio ar uchder yn amrywio ac yn unol â'r Rheoliadau a grybwyllwyd, rhaid dileu'r risgiau hyn lle bynnag y bo hynny'n bosibl neu geisio eu lleihau neu eu rheoli.

Fe all mesurau rheoli gynnwys:

- Defnyddio offer gwahanol.
- Cynnal a chadw offer i safon uchel.
- Newid offer sy'n ddiffygiol neu wedi heneiddio.
- Dosbarthu a defnyddio 'Offer Diogelu Personol' (PPE), offer atal cwmpo ac ati os na ellir cael at ardal y gwaith mewn unrhyw ffordd arall.
- Rhoi gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant i weithwyr.
- Cyfyngu ar y defnydd a wneir o ystolion / ystolion plygu pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.
- Dileu'r angen i weithio ar uchder lle bynnag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

## **Monitro**

Bydd yr Awdurdod yn monitro yn rheolaidd y math o waith cynnal a chadw a wneir gan ei weithwyr a'i gontractwyr er mwyn sicrhau, cyn belled ag y mae hynny'n rhesymol ymarferol, bod yr offer a'r hyfforddiant a roddir yn darparu'r dulliau mwyaf diogel o fynd i mewn / gael allan o ardal weithio nad yw ar lefel y llawr.

Bydd yr awdurdod yn ceisio sicrhau hefyd cyn belled ag y mae hynny'n rhesymol ymarferol na fydd unrhyw waith a wneir ar ei ran yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch unrhyw berson arall sydd yn yr ardal honno.

## **Ymgynghori**

Bydd y Cyngor yn ymgynghori'n llawn gyda gweithwyr, contractwyr a chynrychiolwyr y gweithwyr / cynrychiolwyr diogelwch fydd wedi'u hapwyntio gan undebau llafur cydnabyddedig wrth ddiogelu gweithwyr rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio ar uchder.

### **Adolygu'r Polisi**

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd ac yn cael ei ddiwygio fel y bo'n briodol.